
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

LIC21-73

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cynllun
Imiwneiddio rhag y Ffliw ac
Imiwneiddio Niwmococol)
(Gwasanaeth Ychwanegol o dan
Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2)
2021**

Gwnaed 31 Awst 2021

Yn dod i rym 1 Medi 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Medi 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn effeithiol o 1 Awst 2021 ymlaen.

(4) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(1) 2006 p. 42.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy’n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o’r Ddeddf;

ystyr “claf cofrestredig” (“*registered patient*”) yw—

- (a) person y mae’r Bwrdd Iechyd Lleol yn cofnodi ei fod ar restr o gleifion contractwr GMC, neu
- (b) person y mae contractwr GMC wedi ei dderbyn i’w gynnwys ar ei restr o gleifion, pa un a yw’r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael ei hysbysu ei fod wedi cael ei dderbyn ai peidio, ac nad yw wedi cael ei hysbysu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod wedi peidio â bod ar y rhestr honno;

ystyr “clwstwr” (“*cluster*”) yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy’n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i gyflenwi gwasanaethau meddygol sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr “contract GMC” (“*GMS contract*”) yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yr ymrwymir iddo yn unol ag adran 42 o’r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i gontract GMC ag ef;

ystyr “contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen” (“*engaged GMS contractor*”) yw contractwr GMC sy’n cytuno â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant a wneir yn unol â Chyfarwyddyd 4(1);

ystyr “Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlements*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 45 o’r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i’w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gofalwr ifanc” (“*young carer*”) yw person sydd o dan 25 oed ac sydd â rôl o ofalu am berson arall;

ystyr “y Llyfr Gwyrdd” (“*Green Book*”) yw’r cyhoeddiad “Immunisation against infectious disease”(1);

ystyr “practis arweiniol y clwstwr” (“*cluster lead practice*”) yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i’w gleifion cofrestredig, ac i gleifion cofrestredig contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw’n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae’r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol y clwstwr;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*health care professional*”) yw person sy’n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(2);

ystyr “Rheoliadau Contractau GMC” (“*GMS Contracts Regulations*”) yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2014(3);

ystyr “ymarferydd cyffredinol” (“*general practitioner*”) yw ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(4).

Sefydlu Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol

3.—(1) Mae’n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 41 o’r Ddeddf (gwasanaethau meddygol sylfaenol) arfer ei bwerau er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu ddiogelu bod gwasanaethau meddygol sylfaenol yn cael eu darparu yn ei ardal.

(2) Fel rhan o’i waith o gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 41 o’r Ddeddf, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu, gweithredu a, phan fo’n briodol, ddiwygio Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol.

(3) Diben sylfaenol y Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol yw sicrhau bod cleifion yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol sydd mewn perygl o gael haint y

(1) Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book>

(2) 2002 p. 17.

(3) O.S. 2004/478 (Cy. 48).

(4) O.S. 2004/1020 (Cy. 117).

fflw neu haint niwmococol yn cael cynnig cael eu brechu rhag yr heintiau hynny⁽¹⁾.

Cynllun Imiwneiddio rhag y Fflw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol

4.—(1) Fel rhan o'i Gynllun Imiwneiddio rhag y Fflw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i drefniadau ag—

- (a) pob contractwr GMC, mewn perthynas â chleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw; ac yna
- (b) naill ai—
 - (i) un neu ragor o bractisau arweiniol y clwstwr, mewn perthynas â chleifion cofrestredig practis arweiniol y clwstwr a chleifion cofrestredig y contractwyr GMC hynny yn ei glwstwr, os oes rhai, nad ydynt wedi cytuno, o fewn unrhyw gyfnod amser sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol ag is-baragraff (a), neu
 - (ii) contractwr GMC sydd wedi cytuno i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff (a), ac mewn perthynas â chleifion cofrestredig contractwr GMC arall neu grŵp o gontractwyr GMC yn ddarostyngedig i gytundeb y contractwr GMC arall neu grŵp o gontractwyr GMC.

(2) Pan na fydd cleifion contractwr GMC yn cael y gwasanaethau a amlinellir yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, boed hynny gan y contractwr GMC y maent yn gleifion cofrestredig mewn perthynas ag ef, gan bractis arweiniol clwstwr neu gan gontractwr GMC sydd wedi cytuno i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd ar ran y contractwr GMC y mae'r claf wedi ei gofrestru ag ef, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i sicrhau bod y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn cael ei ddarparu i gleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw mor agos i fangre practis y contractwr GMC hwnnw ag sy'n rhesymol bosibl a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflenwi'r gwasanaeth o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'r cleifion hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n credu ei bod yn briodol (gan gynnwys, ond heb fod yn

(1) Ceir rhagor o fanylion am yr holl grwpiau sydd i'w brechu yn llythyr blynyddol y Prif Swyddog Meddygol ar y Rhaglen Imiwneiddio rhag Fflw Tymhorol a'r Llyfr Gwyrdd.

gyfyngedig i, drwy ddarparu'r gwasanaethau ei hunan neu drefnu i unrhyw gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gyflenwi'r gwasanaethau hynny).

(3) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1)(b)(i), rhaid i bob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gydweithredu(1) â'r contractwyr GMC eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen a phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniant ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i gleifion cofrestredig y contractwyr GMC ar draws y clwstwr. Pan nad oes ond un contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, sef practis arweiniol y clwstwr, ef sy'n gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw. Pan nad oes unrhyw bractis arweiniol clwstwr, a bod pob un o'r contractwyr GMC yn y clwstwr yn gontractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen, maent i gyd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw.

(4) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol (neu ran o flwyddyn) y maent yn ymwneud â hi, gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cwblhau er boddhad y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn y darperir unrhyw wasanaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd ac erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau o dan Gynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol gan y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gan gynnwys, fan lleiaf—
 - (i) y dyddiadau a'r amseroedd pan fydd gwasanaethau o dan y Cynllun yn cael eu cyflenwi,
 - (ii) sut y bydd y contractwr GMC yn parhau i ddarparu, yn ddi-dor, ei wasanaethau hanfodol tra bo'n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, a
 - (iii) unrhyw fanylyn neu sicrwydd arall y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdano gan y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen;
- (b) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn datblygu ac yn cynnal

(1) Gweler paragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau Contractau GMC.

cofrestr (ei “Cofrestr Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol”, a all gynnwys cofnodion sydd wedi eu tagio’n electronig mewn cronfa ddata gyfrifiadurol ehangach) o’r holl gleifion sydd mewn perygl y mae’r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen i gynnig brechiad rhag haint y ffliw a haint niwmococol iddynt, ac at y dibenion hyn mae claf mewn perygl o’r canlynol—

(i) haint y ffliw, os yw’r claf—

- (aa) yn 50 oed neu’n hŷn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno,
- (bb) yn dioddef o glefyd anadlol cronig (gan gynnwys asthma), clefyd cronig y galon, clefyd cronig yr afu/iau, clefyd cronig yr arenau, clefyd niwrolegol cronig, gwrthimiwnedd oherwydd clefyd neu driniaeth, diabetes mellitus,
- (cc) yn byw mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio arhosiad hir neu mewn cyfleuster iechyd neu ofal cymdeithasol arhosiad hir arall,
- (dd) yn ofalwr di-dâl, gan gynnwys gofalwr ifanc, i berson y gall ei iechyd neu ei les fod mewn perygl pe bai’r gofalwr yn mynd yn sâl, gan gynnwys y rheini sy’n cael lwfans gofalwr. Nid oes angen i’r gofalwr fod yn preswyl â’r person y gofelir amdano, na bod yn perthyn i iddo. O ran y grŵp hwn, yn ôl disgrisiwn y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, yng nghyd-destun grwpiau risg clinigol eraill ar restr o gleifion y contractwr hwinnw, y penderfynir a ddylid cynnig brechu ai peidio,
- (ee) yn fenyw feichiog,
- (ff) yn aelod o sefydliad gwirfoddol cydnabyddedig sydd, fel aelod o’r sefydliad hwinnw, yn darparu cymorth cyntaf brys wedi ei gynllunio mewn digwyddiadau cyhoeddus sydd wedi eu trefnu,
- (gg) yn Ymatebwr Cyntaf Cymunedol(1),
- (hh) yn feddyg locwm,

(1) Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol sy’n darparu cymorth brys uniongyrchol fel rhan o gynllun a weithredir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.

- (ii) yn dioddef o anabledd dysgu,
 - (jj) yn afiachus o ordew ac yn 18 oed neu'n hŷn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno,
 - (kk) yn dioddef o asplenia neu gamweithrediad y dduwg,
 - (ll) yn berson sy'n gweithio ar sail wirfoddol (nad yw'n cael ei dalu am ei amser na'i ymdrech) i ddarparu gofal yn aml i un, neu fwy nag un, person anabl oedrannus neu berson sy'n hyglwyf mewn rhyw ffordd arall y byddai ei les mewn perygl pe bai'r unigolyn yn mynd yn sâl,
 - (mm) yn ddarostyngedig i gytundeb â'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn weithiwr gofal cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phreswylwyr cartrefi gofal neu weithwyr gofal cartref, a
- (ii) haint niwmococol, os yw'r claf yn 65 oed neu'n hŷn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno neu os yw o dan 65 oed a'i fod mewn perygl o haint fel y'i diffinnir yn yr argraffiad diweddaraf o'r Llyfr Gwyrdd;
- (c) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn ymrwymo—
- (i) i gynnig brechiadau rhag haint y ffliw a haint niwmococol i bob claf sydd mewn perygl; a
 - (ii) o ran brechiadau rhag haint y ffliw—
 - (aa) i wneud y cynnig hwnnw yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Awst ac yn dod i ben â 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol honno ac i ganolbwyntio'r rhaglen imiwneiddio yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi ac yn dod i ben â 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol,
 - (bb) pan fo'r ffliw yn dal i gylchredeg ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn ariannol, i barhau i wneud y cynnig hwnnw yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill ac yn dod i ben â 31 Mai y flwyddyn ariannol ganlynol, ac
 - (cc) i ddarparu brechlyn effeithiol, gan ystyried y canllawiau a ddyroddir yn y rhifyn blynyddol o Gylchlythyr Iechyd Cymru ar archebu brechlynnau; a

- (iii) i gofnodi'r wybodaeth ei fod wedi cynnig brechiadau yn unol â pharagraffau (i) a (ii), gan gynnwys a dderbyniwyd neu a wrthodwyd y cynnig hwnnw, yn ei Gofrestr Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol gan ddefnyddio'r codau Read cenedlaethol;
- (d) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn datblygu dull rhagweithiol ac ataliol o gynnig y brechiadau rhag haint y fflw a haint niwmococol drwy fabwysiadu systemau galw at atgoffa cadarn i gysylltu â chleifion sydd mewn perygl, er mwyn—
 - (i) sicrhau bod cynifer o'r cleifion hynny â phosibl yn cael y brechiad er budd cleifion sydd mewn perygl, a
 - (ii) cyflawni unrhyw dargedau o ran iechyd y cyhoedd mewn cysylltiad â'r brechiadau hynny;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cofnodion meddygol gydol oes a ddelir gan ymarferydd cyffredinol claf sydd mewn perygl yn cael eu cadw'n gyfredol o ran ei statws imiwneiddio, ac, yn benodol, eu bod yn cynnwys—
 - (i) unrhyw gynnig o frechiad sy'n cael ei wrthod, neu
 - (ii) pan fo cynnig o frechiad wedi ei dderbyn—
 - (aa) manylion y cydsyniad i'r brechiad neu'r imiwneiddio (pan fo person wedi cydsynio ar ran claf sydd mewn perygl, rhaid i berthynas y person hwnnw â'r claf sydd mewn perygl gael ei chofnodi hefyd),
 - (bb) rhif swp, dyddiad dod i ben a theitl y brechlyn,
 - (cc) y dos a roddir,
 - (dd) dyddiad rhoi'r brechlyn,
 - (ee) pan fo 2 frechlyn yn cael eu rhoi, lwybr rhoi pob brechlyn a'r safle lle y rhoddir pob brechlyn,
 - (ff) unrhyw wrtharwydd i'r brechiad neu'r imiwneiddio,
 - (gg) unrhyw adwaith niweidiol i'r brechiad neu'r imiwneiddio;
- (f) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn sicrhau bod gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â rhoi brechlyn—

- (i) y profiad, y sgiliau a'r hyfforddiant y mae eu hangen⁽¹⁾ o ran rhoi'r brechlyn hwnnw, a
- (ii) hyfforddiant o ran cydnabod anaffylacsis a'i drin yn y lle cyntaf;
- (g) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn sicrhau ei fod yn glynu wrth y canllawiau presennol ym mhennod 3 (storio, dosbarthu a gwaredu brechlynnau) yn yr argraffiad diweddaraf o'r Llyfr Gwyrdd⁽²⁾;
- (h) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflenwi i Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth am gleifion, drwy echdynnu data'n awtomatig, at ddibenion monitro faint o gleifion sy'n cael y brechlyn yn lleol ac yn genedlaethol;
- (i) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
 - (i) yn sicrhau bod gan bob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd y sgiliau, yr hyfforddiant, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaethau;
 - (ii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn cwblhau gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus drwy, er enghraifft, ddiweddarau ei addysg yn rheolaidd, mynd ar gyrsiau perthnasol a ddarperir gan y Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â dilyn dysgu hunangyfeiriedig, er mwyn gallu dangos bod ganddo wybodaeth ddigonol a sgiliau digonol drwy ei arfarniad ac aiddilysiad blynyddol;
 - (iii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn ystyried unrhyw gynnig o gyrsiau diweddarau addysg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (iv) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan

(1) Gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cwricwlwm craidd ar gyfer Hyfforddiant Imiwneiddio ar http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=474&pid=42421#National_Minimum_Standards_and_core_curriculum_for_Immunisation_Training.

(2) <https://www.gov.uk/government/publications/storage-distribution-and-disposal-of-vaccines-the-green-book-chapter-3>

Gyfarwyddyd wedi ei indemnio neu ei yswirio'n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy'n codi o'r gwaith sy'n cael ei wneud;

- (v) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (a) a, phan fo'n gymwys, berfformiad y clwstwr mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (3);
- (j) trefniadau talu am gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt ddarparu iddo allu hawlio (pa un a yw'n gweithredu ar ei liwt ei hun yn unig, ar ran contractwr GMC arall neu fel practis arweiniol clwstwr)—
 - (i) taliad o £10.03 fesul brechlyn a roddir, a
 - (ii) y taliad a bennir ym mharagraff (i) pan fo'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol, wedi rhoi brechlyn i staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion, cartrefi nyrsio a hosbisau i blant neu i berson sy'n darparu gofal cartref,

ac ar ôl i'r taliadau fod yn ddyledus, fel uchod, a chael eu hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol, bydd y taliadau hynny yn cael eu talu wedyn ar y dyddiad y mae taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn dod yn ddyledus nesaf yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract GMC y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen fel bod y trefniadau a wneir yn unol â pharagraff (1) yn rhan o gontract y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen hwnnw a bod gofynion y trefniadau yn amodau o'r contract.

(6) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â Rhan 7 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau Contractau GMC.

(7) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod paragraffau (4) a (5) yn gymwys i unrhyw drefniadau fel y byddent i gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen.

Dirymiadau

5.—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2021(1) wedi eu dirymu.



**Llofnodwyd gan Frances Duffy, Cyfarwyddwr,
Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd, yr Is-adran
Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o
Weinidogion Cymru**

Dyddiedig: 31 Awst 2021